



Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ein Diben

Drwy'r ddeddf newydd, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni

- geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ...wrth gyflawni ein swyddogaethau.

Cyflwyniad

Mae ein system rheoli amgylcheddol (EMS) yn helpu i ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fod yn sefydliad ardderchog drwy gynnal ein hardystiad ISO14001:2015, ein hardystiad coedwig yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y DU a thrwy leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hól troed carbon ein hunain.

Ein ffocws yn ystod eleni yw i:

- lleihau ein hól troed carbon – datgarboneiddio;
- cydymffurfiaeth yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y DU;
- gwella statws nodweddion dynodedig, mynediad a dehongli ar safleoedd gwarchoddedig yr ydym yn eu rheoli;
- Lleihau allyriadau cyfartalog ceir yn fflyd CNC – datgarboneiddio.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn wahanol i weithredoedd neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Gellir dod o hyd i adroddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ehangach trwy ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at Adrodd Integredig.

Crynodeb o Berfformiad

Eleni rydym wedi:

- cyrraedd ein targed i leihau ein hól troed carbon o 5% mewn perthynas â defnydd ynni adeiladau a ddefnyddir gan staff a theithio busnes;
- cadw ardystiad yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y DU ar gyfer yr Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli, yn dilyn archwiliadau a gwiriadau allanol;
- cwblhau 67% o darged archwilio rheolaeth gwarchodfeydd natur genedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd wedi'u gweithredu;
- wedi prynu 22 o geir o dan 100 g/km a dau gerbyd trydan newydd.

Tabl 1: Tabl crynhoi'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

2015/16	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18
Allyriadau nwy tŷ gwydr ¹	Defnydd (tCO _{2e})	6,021	5,115	4,387
Egni ystâd	Defnydd (miliwn kWh)	6.9	6.3	6.0
	Gwariant (£k)	657	776	618
Gwastraff ystâd	Cynhyrchwyd (tunelli)	864	1,424	1,141
	Gwariant (£k)	205	225	273
Dŵr ystâd	Defnydd (m ³)	78,395	76,283	50,908
	Gwariant (£k)	39	32	25

Mae Tabl 1 yn dangos newid perthynol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhagor o fanylion ynghylch pob un yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.


I grynhoi:

- gostyngodd allyriadau carbon yn 2017/18 o 14.2% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y defnydd o ynni yn 2017/18 o 4.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2017/18 o 19.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y defnydd o ddŵr yn 2017/18 o 33.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

¹(Cwmpasau 1, 2 a 3 gan gynnwys teithio awyr/rheilffyrdd ac eithrio y tu hwnt i gwmpasau allyriadau)

Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr

Mae ein hallyriadau nwy tŷ gwydr isod:



Gostyngodd allyriadau carbon yn 2017/18 o 14.2% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1 o 13.0%. Roedd hyn oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o danwydd mewn cerbydau bathodyn a pheiriannau gweithredol.

Gostyngodd allyriadau ynni anuniongyrchol Cwmpas 2 o 20.8%. Roedd hyn oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o drydan mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a safleoedd heb staff.

Gostyngodd allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill o 2.3%. Roedd hyn oherwydd gostyngiad yn y milltiroedd a wnaed mewn cerbydau llwyd a cheir llogi.

Tabl 2: Allyriadau nwy tŷ gwydr

Allyriadau nwy tŷ gwydr	2015/16	2016/17	2017/18
Sgôp 1: Allyriadau NTG uniongyrchol (tCO ₂ e)	2,999	2,835	2,466
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO ₂ e)	2,048	1,662	1,317
Cwmpas 3: Allyriadau NTG anuniongyrchol eraill (tCO ₂ e)	974	617	603
Cyfanswm gros allyriadau NTG (tCO₂e)	6,021	5,115	4,387
<i>Tu hwnt i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	253	220	208

Nodyn 1: Data heb ei wirio'n allanol – Sicrwydd Cyfyngedig.

Nodyn 2: Mae allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys: teithio trên, teithio awyr, teithio fflyd lwyd, teithio ceir prydles, teithio ceir llogi, dŵr a gwastraff.

Nodyn 3: Ni chaiff allyriadau Cwmpas 3 o brynu nwyddau a gwasanaethau, y defnydd o agregau mewn adeiladu a'r defnydd o bren eu cynnwys.

Ynni

Mae ein holl ddefnydd o ynni (sy'n cynnwys trydan, nwy o'r prif gyflenwad, LPG, olew gwresogi a biomas) mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a rhai heb staff wedi gostwng 4.7% yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y defnydd o drydan mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff o 9.6%, tra gostyngodd y trydan a ddefnyddiwyd mewn safleoedd heb staff o 0.8%.

Roedd gostyngiad yn y biomas ac LPG a ddefnyddiwyd yn bennaf oherwydd y gosodwyd boeler biomas newydd yn ein canolfan ymwelwyr yng Nghoed y Brenin.

Roedd ychydig o gynnydd yn y nwy o'r prif gyflenwad (1.0%) ac olew gwresogi (3.5%) a ddefnyddiwyd.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu faint o ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy o 1.4% i 2.2% yn ein hadeiladau a ddefnyddir gan staff. Roedd y cynnydd yn bennaf oherwydd y gosodwyd cynllun pŵer hydro yn ein canolfan ymwelwyr yng Ngarwnant.

Ym mis Mawrth 2018, gwnaethom osod paneli ffotofoltäig mewn pum safle. Byddwn yn elwa ar yr ynni a gynhyrchir yn 2018/19. Gwnaethom hefyd osod goleuadau LED mewn 13 safle yn 2017/18. Cafodd y paneli ffotofoltäig a'r goleuadau LED eu hariannu gan gynllun buddsoddi i gynilio Llywodraeth Cymru.

Roedd y cynilion allyriadau carbon yn uwch na'r disgwyl oherwydd i ffactor trawsnewid nwy tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan y DU ostwng ymhellach yn 2017. Roedd hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn y trydan a gynhyrchwyd â glo a chynnydd mewn cynhyrchu nwy ac ynni adnewyddadwy.

Tabl 3: Defnydd o Ynni

Defnydd adnoddau - ynni ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18
Ynni a Ddefnyddiwyd Safleoedd a ddefnyddir gan staff	Defnydd (kWh)	5,550,100	5,209,072	4,918,340
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,011	1,723	1,436
Ynni a ddefnyddiwyd Safleoedd heb staff	Defnydd (kWh)	1,319,745	1,131,651	1,122,103
	Defnydd (tCO ₂ e)	610	466	395
Ynni adnewyddadwy: Hunangynrchedig	Cynhyrchwyd (kWh)	81,713	76,649	106,856
	Defnydd (% o'r ynni a ddefnyddiwyd)	1.4%	1.4%	2.2%
Ynni ddefnyddiwyd: Cyfanswm	Defnydd(kWh)	6,869,845	6,340,723	6,040,443
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,621	2,189	1,830
	Gwariant (£k)	657	777	618

Dŵr

Gostyngodd y defnydd o'r prif gyflenwad dŵr yn ein swyddfeydd o 368 m³ (6.2%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae dwysedd ein defnydd dŵr (m³ / FTE) yn 3.1, sy'n is na'r cyfartaledd o 4.0 ar gyfer defnydd dŵr ², ac rydym wedi gosod targed lleihau pellach ar gyfer 2018/19.

Cynyddodd y defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad yn ein safleoedd nad ydynt yn swyddfeydd o 851 m³ (15.5%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y defnydd o'r prif gyflenwad dŵr yn ein canolfan ymwelwyr ym Mwlich Nant yr Arian (cynnydd o 473 m³) a nifer o flociau toiled yn Nhregaron, Geirionydd a Niwbwrch (cynnydd cyfunol o 362 m³). Roedd y cynnydd yn sgil cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn y gwahanol safleoedd.

Y dŵr a ddefnyddiwyd i weithredu safle ein deorfa bysgod oedd y defnydd o ddŵr a dynnwyd mwyaf sylweddol eleni, sef 36,721 m³. Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 25,968 m³ o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y defnydd hwn oedd y ffactor allweddol wrth ostwng cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd o 25,375 m³ (33.3%).

Tabl 4: Defnydd Dŵr

Defnydd adnoddau – dŵr ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18
Dŵr a gyflenwir - defnydd swyddfeydd: - Prif gyflenwad - Tynnu dŵr	Defnydd (m ³) Defnydd (m ³)	6,830 3	5,923 15	5,555 22
Dŵr a gyflenwir – defnydd nad yw ar gyfer swyddfeydd: - Prif gyflenwad - Tynnu dŵr	Defnydd (m ³) Defnydd (m ³)	5,555 65,981	5,488 64,850	6,339 39,014
Dwysedd defnydd dŵr (ar gyfer swyddfeydd)	m ³ fesul FTE	3.4	3.3	3.1
Dŵr a gyflenwir: Cyfanswm	Defnydd (m³)	78,395	76,283	50,908
	Gwariant (£k)	39	32	25
	Defnydd (tCO₂e)	27	26	18

Teithio

Rhaid i'n teithio cynnwys: teithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, delio â llifogydd, cyfarfodydd safle a theithio rhwng swyddfeydd.

Yn 2017/18 gwnaethom deithio 7,269,097 milltir, a oedd yn ostyngiad o 889,230 milltir (10.9%) o'u chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad o 623,867 milltir (10.3%) a wnaed mewn cerbydau bathodyn. Mae hyn yn cyfateb i arbediad carbon o 133 tCO₂e ac arbedion cost o dros £50k.

² Cyfartaledd = 4m³ fesul FTE (Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Dŵr a meincnodau ar gyfer swyddfeydd a gwestai. C657 CIRIA www.ciria.org)

Byddwn yn parhau i leihau teithio rhwng swyddfeydd gan ddefnyddio ein coeden penderfynu ar deithio a thrwy gynyddu'r defnydd o gynadledda skype, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach.

Tabl 5: Manylion teithio

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18
Cerbydau bathodyn	Milltiroedd a deithiwyd	5,833,839	6,064,812	5,440,945
	Gwariant (£k)	800	768	749
Cerbydau prydles	Milltiroedd a deithiwyd	1,649,345	191,730	0
	Gwariant (£k)	162	18	0
Cerbydau llwyd ³	Milltiroedd a deithiwyd	552,343	639,064	590,998
	Gwariant (£k)	244	287	266
Llogi	Milltiroedd a deithiwyd	256,654	322,505	261,039
	Gwariant (£k)	59	74	88
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	865,693	864,366	938,418
	Gwariant (£k)	221	223	183
Aer	Milltiroedd a deithiwyd	18,898	71,057	33,661
	Gwariant (£k)	6	19	9
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	1,944	2,346	2,301
	Gwariant (£k)	< 1	< 1	< 1
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	4,475	2,447	1,735
	Gwariant (£k)	1	1	1
Cyfanswm teithio mewn cerbyd	Milltiroedd a deithiwyd	9,183,191	8,158,327	7,269,097
	Gwariant (£k)	1,493	1,390	1,291

Lleihau a Rheoli Gwastraff

Gostyngodd y gwastraff cyffredinol a gafodd ei gynhyrchu yn 2017/18 o 19.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y gwastraff swyddfa i safleoedd tirlenwi o 11.6%, ond cynyddodd cyfanswm y gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon o 28.6%. Tipio anghyfreithlon yw unrhyw wastraff sy'n cael ei daflu'n anghyfreithlon gan drydydd parti ar dir yr ydym yn ei reoli – unwaith y mae wedi'i daflu, ni yw'r perchnogion a ni sy'n gyfrifol am y gwaredu a'r costau cysylltiedig.

³ Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat staff

Roedd yr allyriadau carbon yn uwch na'r disgwyl oherwydd i ffactor trawsnewid nwy tŷ gwydr DEFRA ar gyfer gwastraff i safleoedd tirlenwi gynyddu yn 2017. Roedd hyn oherwydd newid yn y fethodoleg gyfrifo na ellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Tabl 6: Gwastraff a Gynhyrchwyd

Gwastraff a Gynhyrchwyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18
Gwastraff swyddfa	Defnydd (tunelli)	266	241	213
Anfonwyd i safle tirlenwi	Defnydd (tCO _{2e})	122	101	125
	Gwariant (£k)	25	22	24
Gwastraff swyddfa	Defnydd (tunelli)	451	934	600
Ailgylchwyd /ailddefnyddiwyd	Defnydd (tCO _{2e})	9	20	28
Gwastraff swyddfa A losgwyd	Defnydd (tunelli)	14	15	27
	Defnydd (tCO _{2e})	< 1	< 1	< 1
Gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon	Defnydd (tunelli)	133	234	301
	Defnydd (tCO _{2e})	32	65	135
Cyfanswm gwastraff	Defnydd (tunelli)	864	1,424	1,141
	Defnydd (tCO_{2e})	164	186	274
	Gwariant (£k)	205	225	273

Caffael Cynaliadwy

Gweledigaeth CNC ar gyfer caffael yw i sicrhau "ein bod yn prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau yr ydym wirioneddol eu hangen, er mwyn cael y gwerth gorau am arian, i wneud y gorau o'r effeithiau ar yr amgylchedd, ar bobl ac ar yr economi leol."

Rydym wedi datblygu Cynllun Dull y Farchnad sy'n caniatáu i archebwyr gwestiynu'r angen i brynu, ac ystyried yn ymarferol effaith eu pryniant a'r holl opsiynau sydd ar gael cyn ymrwymo i gontract. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys yr Asesiad Effaith Cynaliadwyedd, sy'n archwilio effaith y pryniant ar sail cost bywyd cyfan ac yn nodi mesurau lliniaru.

Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu ein dewisiadau cyflenwi i'n blaenoriaethau a'n hamcanion polisi, gan wneud y dewisiadau cywir i helpu i leihau'r defnydd o adnoddau sylfaenol, gan ddefnyddio deunyddiau sydd â llai o effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a gweithredu camau monitro perfformiad effeithiol a thryloywder.

Newid mewn ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith i ymgorffori ein System Rheoli Amgylcheddol i ddiwylliant ein sefydliad, rydym wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi i staff. Mae meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'n gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, caffael pren ac ymateb i ddigwyddiadau.

Digwyddiadau amgylcheddol

Mae 15 o ddigwyddiadau amgylcheddol wedi bod oherwydd ein gwaith ni neu waith ein contractwyr. Mae hyn yn cymharu â deg digwyddiad amgylcheddol yn y flwyddyn flaenorol. Roedd un digwyddiad amgylcheddol categori uchel yn 2017/18 yn ymwneud â dŵr môr yn dod i mewn i ffos ddraenio dŵr croyw a oedd yn arwain at farwolaeth pysgod. Ni fydd camau gorfodi yn cael eu cymryd gan fod y digwyddiad yn cael ei achosi gan fethiant asedau oherwydd ymyrraeth trydydd parti. Pan fydd digwyddiadau'n digwydd oherwydd ein gwaith (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y digwyddiad.

Llywodraethu ac Adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hól troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, sy'n cael ei adrodd gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn agored gyhoeddus) dair gwaith bob blwyddyn.

Rydym yn casglu'r data sy'n cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesurydd (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. yr hyn a brynwyd ar gerdyn tanwydd), data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trêen) a data cyllid, gan ddefnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau mwyaf cywir sydd ar gael gennym. Rydym hefyd yn ceisio lleihau'r defnydd o unrhyw ddata a amcangyfrifir yn ein hadrodd, ac rydym yn gweithio i wella yn y maes hwn.

Prosiect Carbon Bositif

Roedd Prosiect Carbon Bositif CNC yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth wrth ddatgarboneiddio yn sector cyhoeddus Cymru a'r tu hwnt. Mae wedi archwilio sut y gall ein sefydliad fynd i'r afael â'i effaith carbon ar draws adeiladau, trafndiaeth, tir ac asedau gweithredol a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r prosiect yn edrych y tu hwnt i'r allyriadau carbon yr ydym yn adrodd arnynt ar hyn o bryd fel rhan o'n System Rheoli Amgylcheddol, i ddeall ein statws carbon net ehangach (cydbwysedd ein hallyriadau ac atafaeliad). Mae'r prosiect wedi cyfrifo'r statws carbon net ar gyfer CNC, sy'n cyfrif am allyriadau nwy tŷ gwydr ac atafaeliad carbon ar draws ystad gyfan CNC. Mae'r cyfrifiad yn adeiladu ar y wybodaeth o'n System Reoli Amgylcheddol i ddeall allyriadau'r sefydliad yn ei ystyr ehangach, e.e. i gynnwys allyriadau o brynu nwyddau a gwasanaethau, cynhyrchu pren ac adeiladu, ac i gydnabod rol yr ystad a reolir gan CNC o ran carbon. Bydd adroddiad sy'n nodi'r dull a'r cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2018.

Roedd y prosiect hefyd yn gwerthuso'r amrediad o fesurau lliniaru posibl i leihau ein heffaith carbon fel sefydliad, gan geisio cyfraniad gan staff a sefydliadau eraill. Mae'r gwerthusiad yn nodi'r amrediad eang o fesurau posibl sydd ar gael i CNC ac yn cofnodi'r costau a ragwelir, manteision carbon, a manteision ehangach y gallai'r mesurau hyn eu darparu i CNC – yn ogystal ag archwilio i ba raddau y gellid mabwysiadu'r mesurau hyn ar draws y sefydliad.

I dreialu rhai o'r mesurau hyn, roedd y prosiect yn darparu cyfres o brosiectau arddangos, gan gynnwys: cerbydau trydan a seilwaith gwefru, paneli ffotofoltäig solar ar adeiladau ac asedau gweithredol, adfer mawndir, plannu coetiroedd a threialu offerynnau cynllunio carbon mewn fframweithiau caffael mawr. Roedd y rhain yn helpu i hysbysu ynghylch y dichonoldeb, y costau a'r manteision y gallai CNC eu gweld trwy fabwysiadu'r mesurau arfaethedig.

Bydd y cyfleoedd a nodir trwy werthuso opsiynau lliniaru yn helpu i ddatblygu rhaglen gyflwyno strategol, wedi'i chostio a'i blaenoriaethu ar gyfer CNC i fynd i'r afael â'i effaith garbon dros y 3–5 mlynedd nesaf, i arwain datgarboneiddio yn CNC yn y dyfodol ac i ymgorffori rheoli carbon ar draws y sefydliad. Bydd y cynllun hwn yn bennaf ar gyfer defnydd mewnol a bydd yn cael ei gwblhau yn 2018.

Mae'r Prosiect yn parhau i rannu ei ddull a'i brofiadau i ledaenu'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd wrth reoli carbon ledled sector cyhoeddus Cymru, ac i gynorthwyo i gyflawni uchelgais Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Strategaeth y Dyfodol

Y flwyddyn nesaf rydym eisiau:

- Lleihau ein hól troed carbon ymhellach a bod wedi gosod targed i leihau ein hallyriadau carbon deuocsid (tCO₂e) o adeiladau a ddefnyddir gan staff, teithio a defnydd dŵr o 5% yn seiliedig ar ddata 2017/18
- Cynnal ardystiad yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y DU a Safon Amgylcheddol ISO14001:2015
- Gwella statws nodweddiad dynodedig, mynediad a dehongli ar safleoedd gwarchodedig yr ydym yn eu rheoli
- Datblygu mecanweithiau i sicrhau mai teithio llesol yw'r dewis a ffefrir gan staff CNC sy'n cymudo ac ar gyfer teithiau busnes priodol – datgarboneiddio
- Gwella perfformiad amgylcheddol y sefydliad ymhellach

Carl Wannop BSc (HONS) DipEM PIEMA

Rheolwr Systemau Amgylcheddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffôn: 03000 654 930

e-bostio: Carl.Wannop@naturalresourceswales.gov.uk

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.



Croesawir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ffoniwch ni ar 03000 65 3000 (24 awr) i adrodd am ddigwyddiadau amgylcheddol